

## **Maniffesto Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth nesaf San Steffan**

Mai 2017

Mae Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol yn gofyn i bob plaid wleidyddol gydnabod gwerth ein Parciau Cenedlaethol hardd a'r buddion maent yn eu darparu i'r cyhoedd. Ac felly, i ymroi i warchod a buddsoddi yn y Parciau Cenedlaethol er budd ffyniant a llesiant tymor hir y genedl.

Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn ysbrydoli ac maent yn syfrdanol. Maent yn rhan o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru, maent yn bwysig i fywyd gwyllt, mae ganddynt dirweddau hardd ac maent yn darparu cyfleoedd hamdden sylweddol. Maent hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig at yr economi wledig; bydd miliynau o bobl yn mynd yno bob blwyddyn, ac mae hynny'n cynhyrchu dros £1 biliwn yn flynyddol trwy gyfrwng twristiaeth ac yn cynnal oddeutu 30,000 o swyddi.

Dywed naw deg y cant o bobl fod Parciau Cenedlaethol yn bwysig iddynt hwy. Felly, rydym ni'n gwybod eu bod yn asedau pwysig i'r genedl y mae'n rhaid i'r Llywodraeth nesaf geisio eu gwarchod a'u gwella.

### **Gan edrych ymlaen at etholiad Mehefin, mae Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol yn gofyn i bob plaid wleidyddol ymroddi i'r canlynol:**

- **cydnabod pwysigrwydd y Parciau Cenedlaethol a dangos hyn trwy gryfhau'r amddiffyniadau cynllunio cenedlaethol ar eu cyfer;**
- **gwarchod y cyllid a neilltuir ar hyn o bryd ar gyfer y Parciau Cenedlaethol am y pum mlynedd nesaf fel y gellir eu rheoli'n effeithiol a'u gwella; a**
- **gwella mynediad cynaliadwy i'r Parciau Cenedlaethol i alluogi i bawb ddefnyddio a mwynhau'r llefydd ysbrydoledig hyn.**

### Cryfhau amddiffyniadau cenedlaethol

Mae ein Parciau Gwleidyddol yn dirweddau ble mae pobl yn byw ac yn gweithio, ac rydym yn dymuno gweld cymunedau yn y mannau hyn yn ffynnu. Bydd sicrhau datblygiadau cynaliadwy priodol, yn enwedig tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol a chyfleoedd am waith, yn hollbwysig er mwyn cyflawni hynny. Fodd bynnag, mae datblygiadau amhriodol yn ein Parciau Cenedlaethol ac yn agos at eu terfynau yn bygwth rhinweddau arbennig y mannau hyn a rhaid eu hatal. Felly, ni ddylid llacio'r system cynllunio ymhellach.

Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, *Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni i Gymru*, yn amlinellu rôl ar gyfer tirweddau dynodedig o ran dangos arferion da ar gyfer gweddill tirwedd Cymru. I alluogi Parciau Cenedlaethol i gyflawni hynny, rhaid i ddulliau cryf o'u hamddiffyn fod yn eu lle. **Felly, gofynnwn i bob plaid wleidyddol ymroi i sicrhau dulliau cryf o amddiffyn y Parciau Cenedlaethol, yn cynnwys cadw Egwyddor Sandford, mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd ynghylch tirweddau dynodedig.**

### Lefelau digonol o adnoddau

Mae'r Parciau Cenedlaethol yn asedau cenedlaethol o bwys a dylai Llywodraeth Cymru eu gwerthfawrogi a'u cynorthwyo'n ariannol yn briodol. Mae gwariant cyhoeddus ar Barciau Cenedlaethol Lloegr yn gyfystyr â llai na £1 y pen o'r boblogaeth. Oherwydd y boblogaeth lai, mae'r swm y pen ychydig yn fwy yng Nghymru. Ond o gofio'r buddion mae'r mannau hyn yn eu cynnig i'r cyhoedd, mae'r arian hwn yn fuddsoddiad pwysig. Mae ar Barciau Cenedlaethol angen cyfran deg o adnoddau i allu parhau i gynnig y buddion hyn i'r cyhoedd.

Fe wnaeth toriadau ariannol yn y gorffennol arwain at gau canolfannau gwybodaeth, diwedd i'r gwaith o gadw hawliau tramwy ar agor, a diwedd ar lawer o waith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ynghylch y newid yn yr hinsawdd, amddiffyn rhag llifogydd a chadwraeth. Mae arnom ni eisiau i Awdurdodau weithio i wella'r Parciau Cenedlaethol, fel eu bod, ymhlith pethau eraill, yn gyfoethocach o ran eu bioamrywiaeth, yn gallu storio carbon yn well ac yn gallu lleihau risgiau llifogydd yn well. Mae angen adnoddau priodol i wneud hyn. Mae cynaliadwyedd y cyllid hefyd yn hollbwysig. **Rydym ni felly yn gofyn i bob plaid wleidyddol ymroi i warchod cyllidebau'r Parciau Cenedlaethol dros y pum mlynedd nesaf.**

### Gwella mynediad cynaliadwy

Crëwyd Parciau Cenedlaethol er budd y genedl fel dylai pawb gael cyfle i ymweld â hwy. Yn genedlaethol, nid oes gan chwarter o aelwydydd fynediad at gar ac maent yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus ar gyfer mwyafrif eu teithiau. Ac mae gorddibyniaeth wedi bod ar y defnydd o geir preifat gan ymwelwyr i gael mynediad at y Parciau Cenedlaethol a chrwydro ynddynt. Mae Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol hefyd yn dymuno sicrhau fod y Parciau Cenedlaethol ar gyfer pawb yng ngwir ystyr y gair, pa un ai a oes ganddynt gar neu beidio. Rydym ni hefyd yn dymuno sicrhau fod yr amgylchedd rhagorol yn y Parciau Cenedlaethol yn parhau i gael ei amddiffyn a'i well fel gall cenedlaethau'r dyfodol ei fwynhau, trwy hyrwyddo mynediad mwy cynaliadwy at y Parciau Cenedlaethol ac o fewn y Parciau.

I sicrhau fod y Parciau Cenedlaethol yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr cludiant cyhoeddus, **gofynnwn i bob paid wleidyddol ymroi i fynnu fod cynlluniau cludiant cyhoeddus lleol perthnasol yn ystyried ac yn mynd i'r afael ag anghenion ymwelwyr sy'n dod i'r Parciau Cenedlaethol.**

### **Ynghylch Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol:**

Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol yw'r unig elusen genedlaethol sy'n ymgyrchu i amddiffyn a hybu pob un o'r 13 Parc Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Rydym ni'n gorff ymbarél dros 40 o grwpiau amgylcheddol a hamdden, yn cynrychioli dros bedair miliwn o bobl sydd â diddordeb yn y Parciau Cenedlaethol.